# Cynorthwy-ydd Dysgu ôl-radd

## Hoffech chi gael profiad o addysg ddiwinyddol?

Mae gennym gyfle cyffrous i unigolyn sydd eisiau cynyddu eu profiad o addysg ddiwinyddol mewn sefydliad addysg uwch. Rydym yn dymuno penodi un Cynorthw-ydd Dysgu ôl-radd i gynorthwyo gyda dysgu a marcio ar gyfer ein B.Th ar gyfer Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth, cwrs gradd a gyflwynir gan Athrofa Padarn Sant ac wedi ei ddilysu gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

**Y weledigaeth ar gyfer y swydd**
Mae hwn yn gyfle delfrydol i ddefnyddio eich addysg ddiwinyddol mewn swydd fydd yn cyfrannu at eich datblygiad gyrfa ac ennill profiad o fewn addysg ddiwinyddol. Byddwch yn ymuno â thîm cefnogol sy'n frwd dros integreiddio diwinyddiaeth ac ymarfer ynghyd â rhagoriaeth mewn ymchwil diwinyddol. Rhoddir hyfforddiant ar ddulliau asesu a marcio Athrofa Padarn Sant

**Bydd ein Cynorthwy-dd Dysgu ôl-radd:**

- Yn marcio modiwlau yn ôl eu harbenigedd) ac yn unol â meini prawf asesiadau ein Prifysgol Partner, gan roi adborth cefnogol a chraff ar berfformiad myfyrwyr
- Ar gael i ddysgu yn achlysurol ar fodiwlau perthnasol, mewn lleoliadau ar draws Cymry, neu ar Zoom neu ar safle Athrofa Padarn Sant Caerdydd (os/fel y cytunwyd).
- Yn dilyn polisïau a gweithdrefnau Athrofa Padarn Sant a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a sicrhau eich bod yn gwybod am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau mewn arfer da.
- Yn rhan o dîm tiwtora ehangach Athrofa Padarn Sant ac yn mynychu cyfarfodydd cynnydd rheolaidd gyda'i rheolwr llinell.

**Hanfodol**

- Gradd diwinyddiaeth gan gynnwys astudiaethau mewn un o’r pynciau isod: Astudiaethau Beiblaidd, Moeseg, Anglicaniaeth, Athrawiaeth, Cenhadaeth Gristnogol, Diwinyddiaeth Ymarferol
- Tystysgrif ôl-radd neu gymhwyster addysg uwch mewn mae astudio perthnasol
- Argaeledd i farcio aseiniadau o fewn 15 diwrnod yn ystod tymor wedi dyddiad cyflwyno aseiniadau.
- Empathi â chenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru.

**Dymunol**

- Profiad marcio aseiniadau lefel Prifysgol
- Dealltwriaeth o a, awydd i ddysgu mwy am yr anghenion amrywiol ddaw o dan gymorth dysgu megis dyslecsia a dyspracsia
- Profiad i ddefnyddio Moodle a Turnitin
- Profiad o ddefnyddio SharePoint fel system ffeilio ac arbed ffeiliau.
- Dealltwriaeth o bwrpas strwythurau'r Eglwys yng Nghymru

**Ad-daliadau**

Noder yn ychwanegol i’r ffi am bob aseiniad sy’n ace lei farcio, mae yna ffi o £500 i bob tymor academaidd ar gyfer cynorthwyo gyda dysgu, mynychu cyfarfodydd, gwaith paratoi ac unrhyw gyswllt ag Athrofa Padarn Sant.

*Noder bod y swydd hon ar gontract contract ar gyfer gwasanaethau*

**I gael sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch**

Tiwtor Cyswllt, Dr Julie Davies:

E-bost:
JDavies.Associatetutor@stpadarns.ac.uk

**Danfonwch CV a llythyr at Ffion Parry erbyn 24 Tachwedd 2025**

Ffion.parry@stpadarns.ac.uk